Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Rhagfyr 3ydd 2024 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of* **Penbryn Community Council** *Meeting held on Tuesday, December 3rd 2024 at Penbryn Memorial Hall.*

Yn Bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* Caerwyn Owen, Gareth Evans, Teifi Davies, Delfryn Owens, Jonathan Rees, William Anwyl, Walwyn Jones, Gwyn James, Elen Mathias.

1 **Ymddiheuriadau/Apologies**
Cynghorwyr/*Councillors* Barri Davies, Melva Phillips.

2 **Datgelu Buddiannau Personol/Disclosure of Personal Interests**
Dim byd i'w gofnodi/Nothing to disclose

3 **Materion Personol/Personal Matters**
Dim byd perthnasol/*Nothing Relevant*

4 **Cofnodion Cyfarfod Mis Tachwedd/Minutes of November Meeting – 5/11/24**
Cynigiwyd gan Delfryn eu bod yn gywir a'i eilio gan Teifi
Proposed to be correct by Delfryn and seconded by Teifi.

5 **Materion yn Codi/Matters Arising**

i) Ymateb i Adroddiad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru/*Response to Report by the Commission for Democracy and Boundaries Cymru*
Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn cydnabyddiaeth oddi wrth y Comisiwn uchod eu bod wedi derbyn ein sylwadau a'n hargymhellion yn dilyn eu hadroddiad diweddaraf.
The Clerk noted that he had received an acknowledgement from the above mentioned Commission that they have received our recommendations following the publication of their recent report.

ii) Datblygiad Castell Pridd/*Castell Pridd Development*
Wedi i'r Cyngor hwn dderbyn gohebiaeth oddi wrth y datblygwyr hyn nodwyd bod Cyfarfod Cyhoeddus wedi'i gynnal yn Neuadd Goffa Penbryn yn ddiweddar.
Having received correspondence from the developers, it was noted that a Public Meeting had been held at Penbryn Memorial Hall recently.

iii) Llofnodwyr Newydd/*New Signatories*
Dywedodd y Clerc fod **Bank of Scotland** wedi cymeradwyo pedwar llofnodwr newydd ar gyfer ein cyfrif banc.
The Clerk stated that **Bank of Scotland** *had authorised four additional signatories for our bank account.*

6 **Adroddiad ar Gyfarfod y Cyngor Sir yn Ysgol Uwchradd Aberteifi/Report on County Council Meeting at Cardigan Secondary School – 28/11/24**

i) Mynychodd y Cadeirydd a'r Clerc y cyfarfod ar ran y Cyngor gyda Gwyn yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd Sir. Cafwyd adroddiadau ffurfiol ar wasanaethau craidd y Cyngor Sir yn nodi cyfrifoldebau Cyngor Ceredigion. Fodd

bynnag, ni chafwyd rhagor o wybodaeth ynghylch amcangyfrif y gost o gynnal tai bach cyhoeddus y Sir, yng nghyd-destun eu trosglwyddo i'r Cynghorau Cymuned.
The Chair and Clerk attended the meeting on behalf of the Council with Gwyn present as an elected County Councillor. Formal reports were submitted on the core services provided by Ceredigion noting its many responsibilities. However, no further information was received regarding the estimated costs of maintaining public toilets, within the context of transferring them to the Community Councils.

7 **<u>Toiledau Cyhoeddus Tresaith/Public Toilet Provision at Tresaith</u>**

i) Cychwyn y drafodaeth oedd yr ymateb i'r pwynt blaenorol yng nghyd-destun cais y Cyngor Sir i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i Gynghorau Cymuned. Fel y nodwyd eisoes ni chafwyd unrhyw wybodaeth bellach ynghylch y costau, ond yn ystod y sgwrs daeth yn amlwg bod ambell i Gyngor Cymuned yn fodlon cyd-weithio er mwyn trafod yr hyn y gellir ei gyflawni trwy gyd-weithredu. Nodwyd y byddai'r gost yn lleihau po fwyaf o Gynghorau fyddai'n barod i rannu'r baich. Daeth yn amlwg bod Cynghorau Cymuned a Thref Aberporth ac Aberteifi yn awyddus i ddechrau trafodaeth ehangach. Nid oedd Cyngor Cymuned Llangrannog wedi cyfarfod i'w drafod eto. Cytunwyd mewn egwyddor i ystyried ac i drafod gyda'r Cynghorau uchod er mwyn canfod ffordd ymlaen. Awgrymwyd y gellid agor y cyfleusterau'n llawn dros fisoedd yr haf yn unig, gan gadw darpariaeth sylfaenol yn unig dros fisoedd y gaeaf. Yn ogystal â hynny, cytunwyd i ohebu ag Elin Jones A.S ynghylch unrhyw ffynonellau amgen posibl i gynnal tai bach ar hyd yr arfordir.
The previous point led to a further discussion on the transferring of responsibility to the Community Councils. As previously mentioned, no further information was received regarding the costs, but during the discussion it became evident that some Community Councils were willing to co-operate in order to see what could be achieved. It was noted that the costs would be reduced with a large number of Councils willing to share the burden. It became evident that Cardigan and Aberporth Councils were willing to start a wider discussion. Llangrannog Community Council hadn't met to discuss the issue. It was agreed in principle to consider and co-operate with the other Councils. The suggestion was proposed that we should only open the full provision during the summer months, and have a reduced provision during the winter months. It was also agreed to correspond with Elin Jones M.S regarding alternative funds to maintain public toilets along the coast.

8 **<u>Cyllid/Finance</u>**

i) Balans y Cyfrif/*Account Balance*

Balans Blaenorol/*Previous Balance*	£15380.36
Taliadau/*Payments*	
Cyflog Clerc/*Clerk Salary*	£780.00
Balans Newydd/*New Balance*	£14600.36

ii) Ad-daliad Delfryn/*Delfryn's Reimbursement*
Cymeradwyd ad-daliad o £275.59 ar gyfer batri newydd i'r deffibrilydd.
Approved reimbursement of £275.59 for purchase of new battery for defibrillator.

iii) Trafod Praesept 2025-26/*Discussion of Precept 2025-26*

Cyn gosod y Praesept yn derfynol yng nghyfarfod mis Ionawr nododd y Clerc yr holl elfennau sydd angen eu hystyried cyn dod i gyfanswm ffurfiol. Dwy elfen amlwg a all ddylanwadu ar lefel y cyfanswm y flwyddyn nesaf yw goblygiadau posibl cynnal tai bach Tresaith a chostau archwilio cyfrifon diweddar y Cyngor. Mae yna elfen o ansicrwydd ynghylch union gost yr elfennau hyn ond mae'n hanfodol cael digon o gyllid wrth gefn rhag ofn y bydd angen ysgwyddo baich ariannol trymach.
Before designating the final Precept during January's meeting the Clerk referred to the other costs to be considered in its wake. Two key amounts which may influence the total next year are the possible consequences of maintaining the toilets at Tresaith and the costs of auditing our recent accounts. There is an element of uncertainty regarding the actual costs, but it's essential to have sufficient funds in reserve in case there is a heavier financial burden than usual.

9 Cynllunio/Planning

DIM CEISIADAU/*NO APPLICATIONS*

10 Gohebiaeth/Correspondence

DIM GOHEBIAETH/*NO CORRESPONDENCE*

11 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

i) Padiau'r Deffibrilydd/*Defibrillator Pads*
Nododd Delfryn y bydd angen prynu padiau newydd ar gyfer y deffibrilwyr.
Delfryn stated the need to buy new pads for the defibrillators.

ii) Cyflwr Heolydd Gwledig/*State of Rural Roads*
Cododd Teifi bryderon ynghylch cyflwr rhai o heolydd gwledig y plwyf hwn. Nododd yn benodol fod dŵr yn cronni ar yr heol rhwng Temple Bar a Threfilan a bod angen glanhau'r cwteri.
Teifi raised the issue of the state of some of this parish's rural routes. He specifically referred to the water amassing on the road between Temple Bar and Trefilan, as well as the need to clean the gutters.

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ionawr 7ed 2025 am 7.30 y.h.
The next meeting will be held on January 7th 2025 at 7.30 p.m.